# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion Cryno: EL(3) 24-10 : 24 Tachwedd 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

**Amser: 9.20 – 11.50**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Nerys Evans (Cadeirydd Dros Dro), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jeff Cuthbert, Caerffili
Paul Davies, Preseli a Sir Benfro
Brian Gibbons, Aberafan
David Melding, Canol De Cymru
Jenny Randerson, Canol Caerdydd

### Tystion

Ieuan Wyn Jones AC, Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Gareth Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adran yr Economi a Thrafnidiaeth
Mark Osland, Cyfarwyddwr Cyllid, Adran yr Economi a Thrafnidiaeth
James Price, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol
Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
Lesley Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau
Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Owen Evans, Cyfarwyddwr, yr Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Rob Rogers, Pennaeth yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol, yr Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

### Staff y Pwyllgor

Siân Phipps, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc
Ben Stokes, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Siân Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Graham Winter, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### 1: Ethol Cadeirydd dros dro, cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 10.19. Enwebodd Jeff Cuthbert Nerys Evans, ac etholwyd hi.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd dros dro aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Christine Chapman, Andrew Davies a Gareth Jones.

1.4 Cafwyd datganiad o fuddiant gan Jeff Cuthbert fel Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglen Llywodraeth Cymru.

### 2: Craffu ar y gyllideb
### Papur: EL(3) 24-10 – Papur 1, Atodiad; EL(3) 24-10 – Papur 2, Dogfennau 2-5

**Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth; Gareth Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adran yr Economi a Thrafnidiaeth; Mark Osland, Cyfarwyddwr Cyllid, Adran yr Economi a Thrafnidiaeth; a James Price, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol.

2.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r Gweinidog yn fanwl.

**Cam i'w gymryd:**

Cytunodd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth fel mater o frys i ddarparu:

Rhagor o fanylion am Linell Wariant yn y Gyllideb i ddarparu teithio cynaliadwy, yn egluro sut y gwnaed y penderfyniadau o fewn Llinell Wariant y Gyllideb.

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau**

2.3 Croesawodd y Pwyllgor Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes; Lesley Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau ac Emyr Roberts, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Owen Evans, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes; a Rob Rogers, Pennaeth yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes.

2.4 Bu'r Pwyllgor yn holi'r Gweinidogion yn fanwl.

**Papur i'w nodi:**

## Cofnodion cryno o'r cyfarfod blaenorol
## Papur: EL(3) 23-10 – Cofnodion

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 17 Tachwedd.

**Sesiwn breifat**

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 3 yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi).

## 3: Gwerthuso'r gwaith craffu ar y gyllideb

3.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y gyllideb ddrafft a bydd yn cyflwyno adroddiad ar ei argymhellion a'i brif gasgliadau i'r Pwyllgor Cyllid erbyn 1 Rhagfyr 2010.

## 4: Rhaglen waith ar gyfer y dyfodol

4.1 Trafododd y Pwyllgor ei raglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn 2011 a chytuno arni.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Tachwedd 2010**